# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER 21 EBRILL 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | A C S Colburn | A M Cook |
| V M Evans | P Lloyd | H M Morris |
| C L Philpott | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol -Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| G White | Cyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: J P Curtice, P Downing and K E Marsh

94 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

95 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2017 yn gofnod cywir.

96 **GWAHARDD Y CYHOEDD**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i

Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

97 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - JW**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â JW.

Esboniodd JW amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** cais JW am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

1. Mae gyrrwr tacsi'n cyflawni rôl gyfrifol iawn ac mae nifer mawr o bobl yn dibynnu ar yrwyr tacsis yn Abertawe a'r cyffiniau. Mae'n bwysig, felly, fod gyrrwr yn berson addas a phriodol.

2. Roedd y pwyllgor yn fodlon bod yr euogfarnau yn 2015 yn ddifrifol iawn.

3. Clywodd y pwyllgor ar lafar gan JW a darllenwyd cynnwys y ddau lythyr, gan gynnwys un oddi wrth yr AS lleol. Ystyriodd y pwyllgor a ddylai gwyro oddi wrth ei ganllawiau neu beidio. Yn y pen draw, o ganlyniad i ddifrifoldeb yr euogfarnau, nid oedd yr aelodau'n fodlon ei fod yn briodol gwyro'n rhesymol oddi wrth ei ganllawiau wedi ystyried yr holl amgylchiadau.

4. Nid oedd aelodau'n fodlon bod JW yn berson addas a phriodol ac ystyriodd y pwyllgor ei fod yn angenrheidiol defnyddio'r canllawiau a oedd yn gofyn bod gyrrwr yn gallu dangos cyfnod o dri i bum mlynedd heb gael unrhyw euogfarnau.

98 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - LS**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â LS.

Esboniodd LS, gyda chymorth Mr Warren, y Cyfreithiwr, amgylchiadau ei euogfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO** cais LS am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

## 99 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - SMS

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â SMS.

Esboniodd SMS amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** cais SMS am drwydded yrru gyfyngedig ar gyfer cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

## 100 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - SCT

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â SCT.

Esboniodd SCT, gyda chymorth Mr Warren, y Cyfreithiwr, amgylchiadau ei euogfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** cyflwyno llythyr rhybudd cryf i SCT a pheidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu pellach mewn perthynas â thrwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat SCT.

## 101 DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 - CŴN CYMORTH MEWN TACSIS - CAIS AM DYSTYSGRIF EITHRIO - TAA

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â TAA.

Amlinellodd TAA, ar y cyd â Mr Warren, Cyfreithiwr, amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD GWAHARDD** cais TAA am dystysgrif eithrio mewn perthynas â chŵn cymorth mewn tacsis a cherbydau hurio preifat o dan adrannau 169 ac 171 Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

1. Teimlodd y pwyllgor fod gyrrwr tacsi'n cyflawni rôl gyfrifol iawn ac mae nifer mawr o bobl yn dibynnu ar yrwyr tacsis i fynd o le i le, gan gynnwys teithwyr diamddiffyn ac anabl.

2. Bydd y pwyllgor yn rhoi tystysgrif eithrio mewn amgylchiadau lle maen nhw'n hapus ac yn fodlon ar y dystysgrif feddygol a ddarperir. Nid oedd yr aelodau o'r farn bod y ddau lythyr o'r feddygfa'n darparu digon o fanylion ynghylch sut roedd y cyflwr meddygol yn effeithio ar TAA. Roedd y pwyllgor yn poeni nad oedd y meddyg/meddygon teulu wedi bod yn dyst i effeithiau'r alergedd neu wedi gweld pa mor ddifrifol oedd yr effeithiau.

3. Ymhellach, nododd y pwyllgor nad oedd TAA wedi cael unrhyw asesiad gan ymarferydd meddygol. Ymddangosai i'r aelodau fod TAA wedi rhoi gwybod i'r fferyllydd a'r meddyg/meddygon teulu a'u bod nhw wedi gwneud diagnosis ar sail yr wybodaeth a ddarparodd TAA.

4. Cadarnhaodd TAA nad oedd wedi cael prawf alergedd. Nododd yr aelodau y byddai tystiolaeth ddogfennol wedi bod yn ddefnyddiol.

5. Wedi hynny, roedd diffyg tystiolaeth feddygol oherwydd nad oedd unrhyw ddogfen a gyflwynwyd gan TAA yn cadarnhau bod ganddo alergedd i gŵn.

6. Cadarnhaodd TAA mai'r tro diwethaf iddo gael llosg danadl oedd yn ystod mis Hydref 2016, tua chwe mis yn ôl.

7. Cododd y pwyllgor fwy o bryderon ynghylch diffyg tystiolaeth feddygol oherwydd nad oeddent yn sicr a oedd TAA yn dioddef o alergedd acíwt neu gronig.

8. Nid oedd TAA yn gallu cadarnhau pa mor hir, ar ôl iddo fod mewn cysylltiad â chŵn, y byddai'n cymryd i effeithio arno. Yn ogystal â hyn, ni eglurwyd faint o amser y byddai'n cymryd i'r symptomau gilio. Roedd TAA yn ansicr ac nid oedd yn gallu cadarnhau pa mor agos y byddai'n rhaid iddo fod i gi cyn i'w symptomau ymddangos.

9. Ac eithrio cosfa ar groen TAA, nid oedd yn glir pam y byddai angen tystysgrif eithrio. Nid oedd yn glir sut roedd yr alergedd wedi effeithio ar allu TAA i yrru.

10. Nododd aelodau fod TAA yn gwybod am yr amodau bod yn yrrwr tacsis a bod gyrrwr tacsis i fod i ddatgelu cyflwr meddygol, a all effeithio ar ei allu i yrru, i'r Awdurdod Trwyddedu. Roedd y pwyllgor yn poeni bod TAA yn gwybod am yr alergedd ym mis Hydref 2016, ond nid oedd wedi gofyn am dystysgrif eithrio tan 16 Rhagfyr 2016, cyfnod byr wedi i'r achwynydd gwyno.

11. Teimlodd y pwyllgor na chyflwynwyd digon o dystiolaeth iddynt allu rhoi tystysgrif eithrio.

## 102 DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 - TEITHWYR MEWN CADEIRIAU OLWYN - CAIS AM DYSTYSGRIF EITHRIO - WJG

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag WJG ac adroddodd fod WJG wedi dweud nad oedd yn gallu mynd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r pwyllgor fynd i'r afael â'r mater yn absenoldeb WJG.

**PENDERFYNWYD GOHIRIO** ystyried cais WJG am dystysgrif eithrio mewn perthynas â theithwyr mewn cadeiriau olwyn tan gyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am

**CADEIRYDD**